**Cyfarfod y Bwrdd – Yn Gyhoeddus**
**Dydd Mercher 05 Tachwedd 2025**
**09:30yb – 10:30yb**

**Lleoliad:** Zoom

**Aelodau:**

| | |
|---|---|
| Medwin Hughes | Cadeirydd [1] |
| Alyson Thomas | Prif Weithredwr |
| Bamidele Adenipekun | Aelod Anweithredol |
| Jack Evershed | Aelod Anweithredol |
| Karen Lewis | Aelod Anweithredol |
| Mair Gwynant | Aelod Anweithredol |
| Rajan Madhok | Aelod Anweithredol |
| Jason Smith | Aelod Anweithredol |
| Mwoyo Makuto | Aelod Cyswllt |

**Ymddiheuriadau:**

| | |
|---|---|
| Grace Quantock | Dirprwy Gadeirydd |

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Richard Bevan | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol ac Ysgrifennydd y Bwrdd |
| Ben Eaton | Cyfarwyddwr Strategol Strategaeth Sefydliadol ac Ymgysylltu |
| Angela Mutlow | Cyfarwyddwr Gweithrediadau Corfforaethol |
| Israa Mohammed | Cynrychiolydd y Rhaglen Darpar Aelodau Bwrdd |
| Katie Holliday | Cyfarwyddwr Cyllid |
| David Williams | Rheolwr Archwilio, Archwilio Cymru |
| Karla Williams | Rheolwr Llywodraethu a Risg |

## 1.0 Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod ac estynnodd groeso cynnes i'r aelod anweithredol newydd, Mair Gwynant a oedd yn mynychu ei chyfarfod Bwrdd cyntaf.

1.2 Croesawyd David Williams, Rheolwr Archwilio o Archwilio Cymru, hefyd a diolchwyd iddo am y gwaith a wnaeth gyda'r sefydliad ar yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon.

1.3 Nodwyd ymddiheuriadau uchod.

## 2.0 Datganiadau o Fuddiant

2.1 Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant ychwanegol newydd.

## 3.0 Archwilio Cymru – Adroddiad Archwiliad o Gyfrifon – Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru (Llais)

3.1 Cyflwynodd David Williams yr adroddiad a chadarnhaodd fod y cynnwys wedi'i gytuno gyda Thîm Gweithredol Llais. Roedd yr adroddiad hefyd wedi cael ei drafod a'i gytuno yn y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar 30 Medi 2025.

3.2 Nodwyd bod unrhyw dasgau a phrosesau archwilio oedd heb eu cwblhau bellach wedi'u cwblhau gydag asesiad cadarnhaol, ac felly, roedd Llais yn cael barn ddiamod.

3.3 Nid oedd unrhyw faterion arwyddocaol i'w hadrodd. Roedd yr adroddiad yn cynnwys 2 fater yr oedd angen eu gwella ymhellach. Roedd y rhain yn ymwneud ag ansawdd ac argaeledd rhai o'r papurau gwaith, a'r broses o ddatgan buddiant ar ddiwedd y flwyddyn. Yn y ddau achos, cydnabuwyd bod gwelliannau wedi'u gwneud i'r prosesau hyn o flwyddyn i flwyddyn. Darparwyd yr argymhellion manwl yn Atodiad 5 i'r ddogfen.

3.4 I gloi, adroddwyd bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ar y trywydd iawn i'w hardystio gan yr Archwilydd Cyffredinol, yn amodol ar gymeradwyaeth y Bwrdd, a derbyn yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon wedi'u llofnodi a llythyrau cynrychiolaeth wedi'u llofnodi. Byddai'r rhain yn cael eu prosesu yn dilyn y cyfarfod gyda'r ddogfennaeth yn cael ei chyflwyno i'r Archwilydd Cyffredinol.

**A25-11-01:** Y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol/Ysgrifennydd y Bwrdd a'r Rheolwr Archwilio i gysylltu i gwblhau'r ddogfennaeth yn barod i'w llofnodi a'i hardystio.
**Gweithred:** Richard Bevan a David Williams.

Draft

## 4.0 Derbyn yr argymhelliad ar gyfer cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

4.1 Cadarnhaodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg fod materion/gwelliannau bach wedi'u trafod yn y cyfarfod ar 30 Medi 2025 a chytunwyd eu cwblhau i'r ddogfennaeth, ond nad oeddent yn cael eu hystyried yn newidiadau sylweddol ar y pryd.

4.2 Diolchodd aelodau'r Bwrdd i bawb a oedd yn rhan o gynhyrchu'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ar gyfer 2024/2025, yn ogystal â'r cyfraniad a wnaed gan bawb yn Llais y cafodd eu gweithgareddau a'u heffaith o ddydd i ddydd eu hadlewyrchu yn agweddau perfformiad yr adroddiad. Nodwyd bod y broses ar gyfer cynhyrchu'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon wedi bod yn llyfnach eleni.

4.3 Adroddodd y Prif Weithredwr fod trefniadau wedi'u gwneud drwy'r Tîm Gweithredol i drafod ac ystyried yr argymhellion er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu. Hefyd, roedd cyfarfod adolygu gydag Archwilio Cymru wedi'i drefnu ar gyfer dechrau mis Rhagfyr i adolygu'r trefniadau ar gyfer 2024/2025 ac i gynllunio ar gyfer Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y flwyddyn nesaf.

## 5.0 I gymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon a chynnal y llofnodion gofynnol ar y ddogfen

5.1 Mynegodd y Cadeirydd werthfawrogiad am yr ymgysylltiad agored a gonest gan gydweithwyr yn ystod y broses, gan gydnabod bod y sefydliad yn dal yn gymharol ifanc, a chroesawu cyfraniadau aelodau'r Bwrdd a chydweithwyr a oedd wedi bod yn rhan weithredol o'r broses.

5.2 Gwnaeth aelodau Anweithredol sylwadau bod dyluniad a chynnwys yr Adroddiad Blynyddol yn dangos sut roedd Llais wedi rhoi pobl Cymru wrth wraidd y gwaith yn glir, ei fod yn hawdd ei ddarllen, yn hygyrch, wedi'i strwythuro'n dda, ac yn dangos effaith. Diolchodd y

Bwrdd i bawb a gyfrannodd at ddylunio yn ogystal â chynnwys yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon.

5.3 Gofynnwyd a fyddai dogfen gryno yn cael ei chynhyrchu ac yn benodol sut y gallem gyrraedd pobl iau. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Strategol Strategaeth Sefydliadol ac Ymgysylltu y byddai cynnwys yr adroddiad yn cael ei rannu â'r cyhoedd mewn ystod eang o ffyrdd targedig a hygyrch, e.e., gan gynnwys fideos, fel rhan o gynllun cyfathrebu clir ar gyfer yr wythnosau a'r misoedd nesaf.

5.4 Rhannodd yr Aelod Anweithredol newydd ei bod wedi bod yn bleser darllen yr adroddiad dogfen. Daeth â phopeth a oedd wedi cael ei amlygu yn ystod ei chyfnod sefydlu ynghyd. Awgrym pellach ar gyfer adroddiadau yn y dyfodol oedd ystyried ehangu'r ffocws ar effaith rhyng-genhedlaeth a chysylltiadau â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

5.5 Myfyriodd aelod o Raglen Darpar Aelodau Bwrdd fod y ddogfennaeth yn ddiddorol iawn, a byddai'n fuddiol meddwl ar gyfer adroddiadau yn y dyfodol am ein hymgysylltiad pellach â phobl iau. Roedd y wybodaeth am ymgysylltu â gwahanol gymunedau yn ddefnyddiol iawn a gellid adeiladu ar hynny hefyd yn y flwyddyn i ddod.

5.6 Nododd y Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu fod y ddogfen yn adlewyrchu'n dda'r daith ddatblygu yr oedd y sefydliad wedi bod arni ers iddo gael ei sefydlu a dod yn weithredol yn 2023. Awgrymwyd bod cyflwyno ffyrdd newydd o weithio o fewn y sefydliad yn helpu i lunio "ffordd Llais" unigryw, gan nodi bod mwy i'w wneud o hyd o ran datblygu a gwella.

5.7 Ychwanegodd y Prif Weithredwr nodyn olaf o werthfawrogiad i'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol/Ysgrifennydd y Bwrdd, gan gydnabod ei arweinyddiaeth wrth ddatblygu'r ddogfen a llywio'r broses drwy ddod â thimau ynghyd i gynhyrchu'r adroddiad. Roedd y dull cydweithredol hwn wedi gwneud y broses yn llawer llyfnach eto eleni.

5.8 Diolchodd y Cyfarwyddwr Strategol Strategaeth Sefydliadol ac Ymgysylltu i bawb am eu hadborth cadarnhaol a chadarnhaodd y

Draft

byddai'n trosglwyddo'r sylwadau i'r tîm, gyda chydnabyddiaeth yn benodol i'r Swyddog yr Iaith Gymraeg a Chyfathrebu electronig a ddefnyddiodd ei sgiliau sylweddol mewn gwaith dylunio a datblygu i gyflawni'r dyluniad terfynol. Gan edrych ymlaen, byddai adroddiad 6 mis "Yr hyn a glywsom" yn cael ei gynhyrchu i'w ystyried gan y Bwrdd mewn cyfarfod yn y dyfodol.

5.9 Gan ystyried adborth cynharach, cadarnhawyd y byddai Cynllun Blynyddol 2026/27 sydd wrthi'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd yn cynnwys ffocws cryfach ar weithio gyda phlant a phobl iau gyda rhaglen waith bwrpasol wedi'i chynllunio i'w lansio ym mis Ebrill 2026.

5.10 Nodwyd hefyd, er bod cyfeiriad at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn yr adroddiad, fod ei phresenoldeb yn fwy ymhlyg nag eglur. Byddai hyn yn cael sylw wrth gynllunio adroddiad y flwyddyn nesaf er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gliriach â gofynion y Ddeddf.

5.11 Cymeradwyodd y Bwrdd yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn ffurfiol.

## 6.0 Unrhyw fusnes arall

6.1 Ni thrafodwyd unrhyw fusnes arall.

## 7.0 Dyddiadau'r cyfarfod nesaf

7.1 Cynhelir cyfarfod cyhoeddus nesaf y Bwrdd a drefnwyd ddydd Mercher 19 Tachwedd 2025 am 9:30yb, yng Nghaerdydd.

*Daeth y cyfarfod i ben am 09:53. Diolchodd y Cadeirydd i bawb a fu'n rhan o baratoi'r papurau, y cyflwyniadau a'r cyfraniadau at gyfarfod y Bwrdd.*

Draft